

# Fframwaith rheoli gwybodaeth Estyn

Tachwedd 2024

# Ffocws mewnol

## Polisi diogelu gwybodaeth

Mae'r polisi hwn yn cyflwyno ein gweithdrefnau lefel uchel i amddiffyn, i safon uchel yn gyson, ein holl asedau gwybodaeth. Mae'r polisi yn cwmpasu diogelwch y gellir ei gymhwyso trwy dechnoleg a rheolaethau proses, ond efallai'n fwy hanfodol, mae'n cwmpasu cyfrifoldebau ac ymddygiad y bobl sy'n rheoli gwybodaeth yn unol â'n busnes.

## Polisi ar ddefnyddio TG

Mae'r polisi hwn yn cyflwyno'r rheolau a'r arweiniad i'n defnyddwyr TG, sy'n helpu i sicrhau bod defnyddio ein systemau yn effeithlon ac yn ddiogel, ac nad yw'n ein hamlygu i risgiau busnes neu risgiau cyfreithiol mawr. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i ofalu am gyfarpar, defnyddio cyfrineiriau a chamau diogelwch, defnydd personol o gyfarpar, a defnyddio'r e-bost, MS Teams a'r rhyngrwyd.

## Polisi Sicrhau Gwybodaeth

Mae'r polisi hwn yn disgrifio sut rydym yn mynd ati i sicrhau gwybodaeth ac mae'n rhoi arweiniad ar ddefnyddio marciau amddiffynnol a chyfarwyddiadau ar gyfer trin gwybodaeth a dogfennau.

Mae'n cyflwyno cyfrifoldebau penodol Perchnogion Asedau Gwybodaeth a'r gofynion cyffredinol i'r holl staff gymryd gofal amddiffynnol priodol wrth greu, rhannu a storio gwybodaeth. Mae'r polisi yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhoi gwybod yn brydlon am ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a/neu 'achosion trwch blewyn' er mwyn gallu gweithredu'n gyflym i gyfyngu digwyddiad, hysbysu'r rhai y mae'r digwyddiad yn effeithio arnynt ac atal digwyddiad tebyg rhag codi eto yn y dyfodol..

## Polisi ac arweiniad ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein rheolau a'n disgwyliadau ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn Estyn. Diben yr arweiniad yw annog a galluogi staff Estyn i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau digidol eraill yn briodol i wella gwaith Estyn, wrth gynnal y lefelau uniondeb uchaf hefyd.

# Ffocws allanol

## Polisi mynediad at wybodaeth

Mae'r polisi hwn yn cyflwyno hawliau mynediad at wybodaeth benodol yr ydym yn ei dal fel awdurdod cyhoeddus a'r broses ar gyfer gwneud cais i dderbyn gwybodaeth o'r fath; mae'n cwmpasu'r trefniadau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

## Polisi cynllun cyhoeddi

Mae ein cynllun cyhoeddi yn esbonio sut mae gwybodaeth amdanom ni a'n gwaith ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn. Yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae ein cynllun cyhoeddi yn disgrifio'r canlynol:

- pa wybodaeth rydym ni'n addo ei chyhoeddi fel mater o drefn
- sut rydym ni'n cyhoeddi'r wybodaeth hon
- p'un a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu ar gael yn sgil cael tâl amdani

**Y saith dosbarth gwybodaeth y mae Estyn yn ymrwymo i'w cyhoeddi yw:**

1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
2. Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario
3. Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud
4. Sut rydym yn gwneud penderfyniadau
5. Ein polisïau a gweithdrefnau
6. Rhestri a chofrestri
7. Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

# Amserlen cadw a gwaredu cofnodion

Mae ein hamserlen gadw yn datgan am ba hyd rydym yn cadw mathau penodol o wybodaeth a grëwyd wrth gyflawni ein busnes a'r camau y dylid eu cymryd pan na fydd y cofnod o ddefnydd pellach.

Mae'r amserlen hon yn cwmpasu data a gedwir mewn amryw fformat, ar bapur ac yn electronig. Rydym yn dilyn arfer orau a, lle bo'r gofyn, yn cydymffurfio â chyfnodau cadw sydd dan reolaeth deddfwriaeth neu reoliadau: y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# Hysbysiadau preifatrwydd

Mae hysbysiadau preifatrwydd yn cyflwyno'r safonau y gellir eu disgwyl gan Estyn pan yn casglu gwybodaeth bersonol, yn benodol:

- sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol yn gysylltiedig ag unigolion rydym yn ymwneud â nhw
- pa hawliau sydd gan unigolion yn gysylltiedig â'u gwybodaeth bersonol ac amrywiol faterion eraill sy'n ofynnol o dan gyfraith diogelu data.
- sut gallant wrthwynebu ein defnydd ar eu gwybodaeth bersonol, sut gallant dynnu unrhyw ganiatâd a roesant i ni fel y gallwn brosesu eu gwybodaeth bersonol yn ôl a beth i'w wneud os oes ganddynt adborth neu gŵyn.

# Gweithdrefn delio â chwynion

Mae'r weithdrefn delio â chwynion yn esbonio sut i gwyno am ansawdd ein gwasanaethau. Rydym yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i bawb rydym yn gweithio â nhw. Ein nod yw cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Os nad ydym, fodd bynnag, rydym am i bobl ddweud wrthym a gwnawn ein gorau i y mater mor gyflym â phosibl